

PAGE 1

Minutes of the **Annual Meeting** held at the Penrhyn Hall, Ffordd Gwynedd, Bangor on **Monday 9th May 2016** at 6.00 p.m.

PRESENT :- Her Worship The Mayor Councillor Mrs E Butler
The Deputy Mayor Councillor D Williams

Councillors	Susan Ashworth	John Wynn Jones	R K Marshall
	Mrs L Day	Colin King	N Pickavance
	Mrs J Forsyth	D Llewelyn	G O Roberts
	D Hainge	D Madge	Mair Rowlands
	Bryn Hughes	Mrs J Marshall	M Shultan

Officers :- Mr Ian Jones, Town Clerk

PROCEDURAL

The retiring Mayor, Councillor Eve Butler welcomed the Lord Lieutenant of Gwynedd, the High Sheriff of Gwynedd all Members, staff and guests to the Meeting.

She indicated how proud and honoured she had been to serve as Mayor of the City of Bangor for the second time in her career.

She paid tribute to former Councillors Rhys Taylor and Gwynfor Edwards, those Councillors who had passed away during the last 12 months being Eddie Dogan and Frank Woodcock. She also paid tribute to the former Town Clerk, Mr Gwyn Hughes who had retired during her year of office as well as the Mace Bearer, Mr Abdul Aziz Barazzi. She thanked them for all their work associated during her year of office. She also welcomed the new Councillors Susan Ashworth, Colin King and Mair Rowlands.

The retiring Mayor outlined work that had been carried out by Bangor City Council during the past 12 months which included works at the Pier, the success of the weekly market, City Centre Partnership, Floral Displays, Christmas lights and works at Penrhyn Hall. A special thanks was given to Bryan Collis and TBOBG for all their efforts in bringing together the Carnival and the Christmas Activities. She outlined some of the events that she had attended during the year and thanked everyone for their kind and generous approach given to the Office of Mayor and for the many invitations which were far too numerous to mention.

The Mayor thanked the new Dean Kathy Jones for saying a short prayer before the meeting and expressed the hope that she would enjoy her position in Bangor City.

Finally, Councillor Butler noted the absence of Mrs Sheila Jenkins, who was a Freeman of the City and indeed this week coincided with Mrs Jenkins 100th birthday for which the Council would send their good wishes. She thanked everybody for their attendance this evening and their good wishes over the last 12 months in Office.

01/16 ELECTION OF MAYOR

The Mayor asked for proposals for the election of Mayor for the forthcoming Municipal Year 2016/2017.

The name of Councillor Dewi Williams was proposed and seconded. There were no other names put forward.

RESOLVED : that Councillor Dewi Williams be elected as Mayor for the forthcoming Municipal Year.

The Mayor then retired to change robes.

On return to the Chamber the Proposer and Seconder, invested the Mayor with the Chain of Office, who then read and signed the Declaration of Acceptance of Office of Mayor of the City of Bangor Council in the presence of the Town Clerk, as the Council's Proper Officer who also signed the Declaration.

02/16 ADDRESS BY HIS WORSHIP THE MAYOR

His Worship the Mayor thanked his Proposer and Seconder, Councillors Doug Madge and John Wynn Jones for putting his name forward as Mayor of the City and for their kind and generous words in doing so.

He said he was looking forward to a challenging year and pointed to the continuing cuts affecting Local Government as a particularly difficult area to tackle during the year. He thanked the outgoing Mayor for giving him the opportunity to attend some events during her year of office, which would stand him in good stead for a very busy year of engagements ahead.

The Mayor said he would give his full commitment to his year in office and thanked all present for attending the meeting as well as the honoured guests. He then duly invested his wife, Mrs Glenis Williams his Mayoress with the Chain of Office.

03/16 APOLOGIES

Apologies for absence were received from Councillors J M Martin (holiday), C O'Neal and Huw Williams.

04/16 ELECTION OF DEPUTY MAYOR

The Mayor invited nominations for the appointment of Deputy Mayor. The name of Councillor Derek Hainge was duly proposed and seconded. There were no other names submitted.

RESOLVED: that Councillor Hainge be elected as Deputy Mayor of the City of Bangor for the forthcoming Municipal Year 2016/2017.

The Mayor then invested Councillor Hainge with the Deputy Mayor's Chain of Office.

05/16 ADDRESS BY THE DEPUTY MAYOR

The Deputy Mayor then addressed the Meeting. Firstly, he congratulated the Mayor on his election. He then thanked his proposer, Councillor Jean Forsyth and seconder, Councillor Bryn Hughes, for putting his name forward and for their kind words. He thanked the Council for the faith they had shown in him by electing him to the post, he said he would do the best he could to be an ambassador for the City of Bangor and assist the Mayor in whatever form was necessary

He announced that his daughter, Angela Evans would be his Deputy Mayoress.

06/16 MAYOR'S CHAPLAIN

The Mayor announced that The Reverend Geraint Roberts would be his Chaplain throughout his Year of Office.

07/16 MINUTES OF COUNCIL

RESOLVED : that the Minutes of the Council Meeting held on 25th April 2016 be confirmed as a correct record and signed by the Mayor.

08/16 MINUTES OF PLANNING AND AMENITIES COMMITTEE

RESOLVED : that the Minutes of the Planning and Amenities Committee held on the 25th April 2016 be confirmed as a correct record.

09/16 APPOINTMENT OF COMMITTEES AND TIMETABLE OF MEETINGS

The Council considered the Town Clerk's report that had been circulated with the Agenda.

RESOLVED: a) that the appointment of the Standing Committees be confirmed as set out in the report and that the delegated powers to those Committees be also confirmed.
b) that the timetable of Council and Committee Meetings be agreed.
c) that the Schedule of Councillors' attendance for 2015/16 be noted.

10/16 APPOINTMENT OF REPRESENTATIVES TO OUTSIDE BODIES AND LOCAL ORGANISATIONS

The Council considered the Town Clerk's report on this matter.

RESOLVED to refer this item to the Meeting of the Finance and General Purposes Committee to be held on 16th May 2016.

The Meeting finished at 6.55 p.m.

MAYOR

Cofnodion y **Cyfarfod Blynyddol** a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn, Ffordd Gwynedd, Bangor, **Nos Lun 9^{fed} o Fai 2016** am 6.00 p.m.

PRESENNOL : Ei Theilyngdod y Maer, y Cynghorydd Mrs E Butler

Y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Dewi Williams

Y Cynghorwyr	Susan Ashworth	John Wynn Jones	R K Marshall
	Mrs L Day	Colin King	N Pickavance
	Mrs J Forsyth	D Llewelyn	G O Roberts
	D Hainge	D Madge	Mair Rowlands
	Bryn Hughes	Mrs J Marshall	M Shultan

Swyddogion : Mr Ian Jones, Clerc y Dref

GWEITHDREFNOL

Croesawodd y Cynghorydd Eve Butler, sef y Maer oedd yn ymddeol, Arglwydd Raglaw Gwynedd, Uchel Siryf Gwynedd, yr Aelodau i gyd, y staff a'r gwesteion i'r cyfarfod.

Dywedodd y bu'n fraint ac anrhydedd cael gwasanaethu fel Maer Dinas Bangor am yr ail dro yn ei gyrfa.

Talodd deyrnged i'r cyn Gynghorwyr Rhys Taylor a Gwynfor Edwards; ac i'r Cynghorwyr hynny a fu farw yn ystod y 12 mis diwethaf, sef Eddie Dogan a Frank Woodcock. Rhoddodd deyrnged hefyd i gyn Glerc y Dref, Mr Gwyn Hughes, a oedd wedi ymddeol yn ystod ei blwyddyn yn swydd, ynghyd â Chludydd y Mes, Mr Abdul Aziz Barazzi. Diolchodd iddynt am eu holl waith yn ystod ei hamser yn y swydd. Yna croesawodd y Cynghorwyr newydd, Susan Ashworth, Colin King a Mair Rowlands.

Rhoddodd y Maer oedd yn ymddeol amlinelliaid o'r gwaith a wnaed gan Gyngor Dinas Bangor yn ystod y 12 mis diwethaf a oedd yn cynnwys gwaith ar y Pier, llwyddiant y farchnad wythnosol, Partneriaeth Canol y Ddinas, Trefniadau Blodau, goleuadau Nadolig a gwaith yn Neuadd y Penrhyn. Diolchwyd yn arbennig i Bryan Collis a Grŵp Pobl Bangor am eu gwaith caled yn trefnu'r Carnifal a'r Dathliadau Nadolig. Soniodd am rai o'r digwyddiadau a fynychwyd ganddi yn ystod y flwyddyn. Diolchodd i bawb am eu hymateb caredig a hael tuag at Swydd y Maer ac am y gwahoddiadau lu a oedd yn rhy niferus i'w rhestru.

Diolchodd y Maer i'r Deon newydd, Kathy Jones am offrymu gweddi fer cyn y cyfarfod a dywedodd ei bod yn gobeithio y byddai'r Deon yn mwynhau ei swydd yn Ninas Bangor.

Yn olaf, nododd y Cynghorydd Butler absenoldeb Mrs Sheila Jenkins, a oedd yn Rhyddfreniwr y Ddinas ac yn wir yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed yr wythnos hon. Byddai'r Cyngor yn anfon eu dymuniadau gorau ati. Diolchodd i bawb am eu presenoldeb a'u dymuniadau da yn ystod y 12 mis diwethaf yn y Swydd.

01/16 ETHOL MAER

Gofynnodd y Maer am gynigion ar gyfer ethol Maer am y Flwyddyn Ddinesig sydd i ddod, 2016/2017.

Cynigiwyd ac eiliwyd enw'r Cynghorydd Dewi Williams. Ni chynigiwyd enw arall.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Dewi Williams yn Faer am y Flwyddyn Ddinesig sydd i ddod.

Aeth y Maer allan i newid ei fantell.

Ar ôl iddo ddychwelyd i'r Siambr, arwisgwyd y Maer newydd gyda Chadwyn y Swydd, yna darllenodd a llofnododd y Datganiad Derbyn Swydd fel Maer Cyngor Dinas Bangor yng ngŵydd Clerc y Dref, Swyddog Priodol y Cyngor a llofnododd y Datganiad.

02/16 ANERCHIAD GAN EI DEILYNGDOD Y MAER

Dechreuodd ei Deilyngdod y Maer drwy ddiolch i'w Gynigydd a'i Eilydd, y Cynghorwyr Doug Madge a John Wynn Jones, am roi ei enw ymlaen fel Maer y Ddinas ac am eu geiriau caredig.

Dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at flwyddyn a fyddai'n llawn heriau gan nodi y byddai'r toriadau parhaus sy'n effeithio ar Lywodraeth Leol yn faes anodd ei daclo yn ystod y flwyddyn. Diolchodd i'r Maer oedd yn ymddeol am roi'r cyfle iddo fynychu rhai digwyddiadau yn ystod ei thymor hi yn y swydd, a fyddai'n ei baratoi yn dda ar gyfer y flwyddyn brysur iawn o ymrwymtiadau a oedd o'i flaen.

Dywedodd y Maer y byddai'n ymroi'n llwyr i'r flwyddyn yn y swydd a diolchodd i bawb a oedd yn bresennol am fynychu'r cyfarfod yn ogystal â'r gwesteion anrhydeddus. Yna arwisgodd ei wraig, Mrs Glenis Williams, ei Fares, gyda Chadwyn y Swydd.

03/16 YMDDIHEURIADAU

Dderbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J M Martin (gwyliau), C O'Neal a Huw Williams.

04/16 ETHOL DIRPRWY FAER AM Y FLWYDDYN DDINESIG 2015/2016

Gwahoddodd y Maer enwebiadau ar gyfer penodi Dirprwy Faer. Cynigiwyd enw'r Cynghorydd Derek Hainge ac eiliwyd ef. Ni chynigwyd enw arall.

PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Derek Hainge yn Ddirprwy Faer Dinas Bangor am y Flwyddyn Ddinesig sydd i ddod, 2016/2017.

Arwisgodd y Maer y Cynghorydd Williams gyda chadwyn Swydd y Dirprwy Faer.

05/16 ANERCHIAD Y DIRPRWY FAER

Yna anerchodd y Dirprwy Faer y cyfarfod. Yn gyntaf, llongyfarchodd y Maer ar ei ethol. Wedyn diolchodd i'w gynigydd, y Cynghorydd Jean Forsyth, a'i eilydd, y Cynghorydd Bryn Hughes, am roi ei enw ymlaen ac am eu geiriau caredig. Diolchodd i'r Cyngor am y ffydd yr oeddynt wedi ei ddangos ynddo trwy ei ethol i'r swydd. Dywedodd y byddai'n gwneud ei orau i fod yn llysgennad dros Ddinas Bangor ac addawodd gefnogi'r Maer ym mha bynnag fodd yr oedd angen.

Cyhoeddodd mai ei ferch, Angela Evans, fyddai ei Ddirprwy Faeres.

06/16 CAPLAN Y MAER

Cyhoeddodd y Maer mai'r Parchedig Geraint Roberts fyddai ei Gaplan trwy gydol y flwyddyn.

07/16 COFNODION Y CYNGOR

PENDERFYNWYD: derbyn Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 25ain o Ebrill 2016 fel rhai cywir a'u harwyddo gan y Maer.

8/16 COFNODION Y PWYLLGOR CYNLLUNIO A MWYNDERAU

PENDERFYNWYD: derbyn Cofnodion y Pwyllgor Cynllunio a Mwynderau a gynhaliwyd ar y 25ain o Ebrill 2016 fel rhai cywir a'u harwyddo gan y Cadeirydd.

09/16 PENODI PWYLLGORAU AC AMSERLEN CYFARFODYDD

Ystyriodd y Cyngor adroddiad Clerc y Dref a anfonwyd gyda'r Rhaglen.

PENDERFYNWYD:

- a) Cadarnhau penodi'r Pwyllgorau Sefydlog fel ag y'u gosodwyd allan yn yr adroddiad a bod yr hawliau dirprwyedig i'r Pwyllgorau hyn hefyd yn cael eu cadarnhau.
- b) fod amserlen cyfarfodydd y Cyngor a'r Pwyllgorau yn cael ei chadarnhau.
- c) fod y Rhestr o bresenoldeb Cynghorwyr yn 2015/16 yn cael ei nodi.

10/16 PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL A MUDIADAU LLEOL

Ystyriodd y Cyngor adroddiad Clerc y Dref ar y mater.

PENDERFYNWYD gohirio'r eitem yma i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid ac Amcanion Cyffredinol i'w gynnal ar 16 Mai 2016.

Gorffennodd y Cyfarfod am 6.55 y.h.

MAER